## Llwybrau Gyrfa Academaidd – Athro: Prif Egwyddorion

### Deilliant

Er mwyn cyflawni ein huchelgais, mae angen arnom weithlu â'r sgiliau amrywiol angenrheidiol i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni rhagoriaeth mewn ymchwil, addysgu, dysgu a phrofiad ehangach y myfyrwyr, ac i fod yn bwerdy ar gyfer economi'r rhanbarth ac yn rhyngwladol. Mae'r cynllun Llwybrau Gyrfa Academaidd (ACP) wedi'i greu mewn modd sy'n sicrhau bod cryfderau academaidd, boed hynny ym maes ymchwil, dysgu, profiad ehangach myfyrwyr, arweinyddiaeth neu arloesedd ac ymgysylltiad i gyd yn cael eu cydnabod, eu datblygu, eu gwerthfawrogi a'u gwobrwyo'n briodol.

Diben y dull hwn o weithredu yw cefnogi pob aelod o'r staff academaidd i weithio i'w llawn botensial. Cynlluniwyd meini prawf y Llwybrau Gyrfa Academaidd er mwyn bod yn dryloyw ac yn deg ac er mwyn arddangos y trothwyau. O ystyried yr amrediad o weithgaredd academaidd, canllawiau yn unig yw'r Lefelau Perfformiad Dangosol yn hytrach na chanllawiau diffiniol.

Fel arfer caiff aelodau newydd o staff eu rhoi ar gyfnod prawf. Wedi iddynt gwblhau'r cyfnod prawf hwnnw, cânt eu cefnogi trwy gyfrwng proses Adolygiad Datblygiad Proffesiynol (PDR) y Brifysgol.


### Llinynnau a Meini

1. Mae tri maen prawf Craidd sy'n rhaid eu cyflawni drwy bob gradd academaidd fel Darlithydd, Uwch Ddarlithydd, Athro Cyswllt ac Athro (graddau 8-11):

    - Rheolaeth Graidd
    - Ymchwil Craidd
    - Addysgu Craidd

2. Mae 3 llinyn academaidd Uwch:
    - Ymchwil Uwch
    - Addysgu ac Ysgolheictod Uwch
    - Arloesedd ac Ymgysylltiad (ADY) Uwch.

Dangosir y tri llwybr gyrfa, sy'n seiliedig ar ragoriaeth ym maes ymchwil (R), addysgu ac ysgolheictod (T) neu arloesedd ac ymgysylltiad (IE) isod ar ffurf diagram. Fel rhan o'r llwybrau gyrfa mae'n rhaid cyflawni'r meini prawf Craidd ar bob lefel, er enghraifft Rheolaeth sy'n gyffredin i bob llinyn.




3. Mae'r un 4 maen prawf Uwch yn berthnasol i bob lefel ar y raddfa ond eu bod yn fwy heriol o un lefel i'r nesaf.

4. Mae'r meini prawf sy'n cael eu nodi ar gyfer y graddau is yn cael eu cymryd yn ganiataol ar gyfer graddau uwch pob llinyn (e.e. mae'r meini prawf a nodir ar gyfer gradd 8 yn cael eu cymryd yn ganiataol ar gyfer gradd 9).

5. Mae'r Llwybrau Gyrfa Academaidd wedi'u creu i fod yn ddatblygiadol. Dylai aelodau o staff gael eu cefnogi yn eu datblygiad. Mae datblygiad yr aelodau hynny o staff sydd ar brawf yn cael ei ystyried yn ystod eu cyfnod prawf.

Swansea University Prifysgol Abertawe

## Meini Prawf

6. Mae gan bob maen prawf ar gyfer pob gradd enghreifftiau diffiniedig o'r dystiolaeth ychwanegol sydd ei hangen ar gyfer cyflawni'r maen prawf.

7. Caiff arweinyddiaeth academaidd (o ran bod aelodau o staff yn arweinwyr yn eu maes) ei ymgorffori yn y llinynnau academaidd.

## Lefelau Perfformiad Dangosol

8. Mae gan bob maen prawf ar gyfer pob gradd enghreifftiau wedi'u ddiffinio'n glir a Lefelau Perfformiad Dangosol. Os oes mwy nag un Lefel Perfformiad Dangosol, yna fe nodir blaenoriaeth strategol y Brifysgol mewn print bras.

9. Mae'r Lefelau Perfformiad Dangosol yn berthnasol pro rata ar gyfer staff rhan amser a chânt eu hystyried yn ôl yr hyn sy'n addas. Dylai staff rhan amser arddangos yr un nodweddion ag a nodir yn y Lefelau Perfformiad Dangosol ond efallai y gall llai o enghreifftiau fod yn addas ar gyfer staff rhan amser.

10. Dylid ystyried effaith amgylchiadau unigol wrth ystyried Lefelau Perfformiad Dangosol, gan gynnwys yr enghreifftiau canlynol: seibiant mewn gyrfa, cyfnod o absenoldeb neu secondiad neu fath arall o absenoldeb, er enghraifft, absenoldeb mamolaeth neu oherwydd cyfrifoldebau gofalu.

11. Caiff staff academaidd clinigol* eu hystyried yn erbyn y Lefelau Perfformiad Dangosol ar sail pro-rata, ar sail y gyfran o'u cytundeb sy'n academaidd, yn yr un modd â staff rhan amser. (*Ddim yn berthnasol i benodiadau er anrhydedd).

## Dyrchafiad Academaidd

12. Mae gan bob maen prawf ar gyfer pob gradd nifer o 'Lefelau Perfformiad Dangosol' ynghyd ag enghreifftiau o sut y gellir

cyflawni'r meini prawf hynny. Mae Lefelau Perfformiad Dangosol yn dangos beth a ddisgwylir gan staff sy'n ymgeisio am ddyrchafiad.

13. Bydd angen i ymgeiswyr arddangos:
    - Y meini prawf uwch o fewn y llinyn a ddewiswyd ganddynt (Ymchwil, Addysgu ac Ysgolheictod neu Arloesedd ac Ymgysylltiad) ar gyfer y radd y maent yn ymgeisio amdani;
      a'r
    - meini prawf Craidd mewn Rheolaeth a'r meini prawf Craidd yn naill ai Addysgu neu Ymchwil (h.y. nid yn y llinyn a ddewiswyd).

14. Mae'n rhaid i'r rhai sy'n ymgeisio am ddyrchafiad ddangos sut y gwnaethant gyflawni'r meini prawf a nodir yn y proffil rôl perthnasol. Er mwyn gwneud hyn fe ddylai'r ymgeisydd egluro'r canlynol yn ofalus yn eu cais:
    - Sut y llwyddwyd i gyflawni'r lefel o gymhwysedd a awgrymir gan y Lefelau Perfformiad Dangosol ar gyfer pob un o'r meini prawf.
    - Arddangos sut y llwyddwyd i gyflawni'r lefel perfformiad perthnasol, gan roi enghreifftiau o'u gwaith, a thystiolaeth i gefnogi (gall yr enghreifftiau fod yn debyg iawn i'r enghreifftiau a nodir yn y proffil rôl, neu'n enghreifftiau gwahanol, cyn belled â'u bod o ansawdd tebyg).

15. Pan na fydd ymgeiswyr yn gallu dangos eu bod yn cydymffurfio'n llawn neu'n rhannol â maen prawf penodol, ond eu bod, serch hynny, yn ystyried eu bod yn gymwys ar gyfer dyrchafiad ar sail eu cryfderau mewn meysydd sy'n ymwneud â meini prawf eraill o fewn y llinyn gyrfa, ni ddylid eu rhwystro rhag gwneud cais am ddyrchafiad. Dan yr amgylchiadau hyn, dylai ymgeiswyr:
    - Sicrhau bod cryfderau mewn meysydd eraill yn cael eu hegluro'n fanwl a darparu tystiolaeth lawn; ac
    - Egluro pam nad oes modd cyflawni maen prawf penodol, ac os yn berthnasol, darparu tystiolaeth i gefnogi hynny.

16. Pan fo ymgeisydd yn ceisio cadarnhau maen prawf, yna fe ddylai'r Lefel Perfformiad Dangosol a'r enghreifftiau sy'n cael eu cynnwys ar gyfer pob maen prawf gael eu hystyried fel canllaw ar gyfer y lefel perfformiad sydd i'w arddangos er mwyn gwneud cais am ddyrchafiad. Yn gyntaf, dylai ymgeiswyr ystyried os ydynt yn cyflawni'r dangosyddion sydd ochr yn ochr â phob maen prawf. Os nad yw'r rhain yn cael eu cyflawni yna dylai'r ymgeiswyr ystyried a ydynt yn gallu cynnig tystiolaeth ar lefel gymharol.

Os nad yw ymgeiswyr yn gallu dangos eu bod wedi cyflawni Lefel Perfformiad Dangosol penodol, yna mae'n bosib y bydd modd iddynt arddangos cywerthedd gan ei gwneud yn glir mai dyma'r bwriad ac egluro sut mae modd iddynt hawlio cywerthedd. Mae'r Pwyllgor Dyrchafiad yn ystyried bob maen prawf a'r dystiolaeth a ddarparwyd ond mae hefyd yn ystyried y cais cyflawn mewn modd cyfannol.

Ni ddylai ymgeiswyr sy'n ystyried eu bod wedi cyflawni'r holl Lefelau Perfformiad Dangosol gymryd yn ganiataol fod dyrchafiad yn awtomatig. Dylai ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth ac enghreifftiau digonol er mwyn i'r panel allu ystyried eu cais am ddyrchafiad yn llawn.

17. Os cawsoch chi eich penodi o fewn y 5 mlynedd ddiwethaf ac rydych chi'n cyflwyno cais am ddyrchafiad, byddem yn disgwyl tystiolaeth ers i chi gael eich penodi i ddangos hanes cyson o gyflawni. Yn yr achos hwn, byddem yn eich annog i gynnwys y canlynol yn amlwg yn adran naratif y ffurflen gais:
    - gweithgarwch yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf ers i chi gael eich penodi
    - gweithgarwch newydd ers cael eich penodi yn Abertawe

## Llwybrau Gyrfa Academaidd. Meini Prawf Craidd – Rheolaeth

| | Maen Prawf | Lefel Perfformiad Dangosol | Enghreifftiau |
|---|---|---|---|
| **1.** | <u>Cyfrannu at ein Gweithgareddau</u><br><br>Cyfranogi'n weithredol yn y gwaith o lunio penderfyniadau'r Brifysgol/y Gyfadran/yr Ysgol neu'r adran a chyfrannu at weithgareddau y tu hwnt i ymrwymiadau ymchwil, addysgu neu ysgolheictod uniongyrchol. | Eich 4 prif gyfraniad yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf sy'n dangos eich cyfraniad a'ch effaith personol.<br><br>Gallai'r effaith fod ar:<br>• eich myfyrwyr neu eich tîm<br>• eich disgyblaeth neu eich adran<br>• Cyfadran/Ysgol<br>• y Brifysgol<br>• yn allanol | *Arddangoswch, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol, y raddfa ac effaith yr hyn rydych wedi'i wneud. Dyma rai meysydd enghreifftiol fel canllaw:*<br><br>• fel aelod o bwyllgor Adran, Ysgol, Cyfadran neu'r Brifysgol<br>• cyfrannu'n weithredol at fentrau neu fesurau sy'n hybu cydraddoldeb<br>• fel aelod o weithgor yn yr Ysgol/yr Adran a sefydlwyd i wneud argymhellion i Bwyllgor Cyfadran/Ysgol e.e.<br>– gwneud argymhellion i bwyllgor perthnasol ynghylch newidiadau i asesu modiwl<br>– gwneud penderfyniadau ynglŷn â chyfeiriadau dysgu posib<br>– gwneud penderfyniadau ynglŷn â llwybrau ymchwil posib i'w dilyn neu am fethodoleg arloesol y gellid ei mabwysiadu<br>– adolygu a gwella gweithdrefnau mewnol (e.e. asesu, trefniadau bugeiliol, amserlennu)<br>• mentrau Profiad Myfyrwyr, e.e.<br>– gwella profiad myfyrwyr o ran gofal bugeiliol<br>– gwella profiad myfyrwyr rhyngwladol e.e. eu helpu i integreiddio i'r gymuned ehangach o fyfyrwyr<br>– gwella profiad myfyrwyr anhraddodiadol, myfyrwyr anabl neu fyfyrwyr o leiafrif ethnig<br>– gwella profiad myfyrwyr ar leoliad gwaith<br>• proses derbyn a recriwtio'r Gyfadran drwy gymryd rhan mewn cyfweliadau neu roi sgyrsiau<br>• recriwtio myfyrwyr rhyngwladol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | <ul><li>cyflawni rolau cydlynol yn effeithiol, fel cydlynu gwaith maes neu leoliadau gwaith myfyrwyr</li><li>cyfrannu at gynhadledd/gweithdy, trefniadau arholiad neu ddigwyddiad allanol</li><li>sefydlu systemau gwybodaeth neu gyfathrebu ar gyfer y Gyfadran/yr Ysgol neu'n allanol</li><li>cydweithio ar draws y Brifysgol a thu hwnt.</li><li>cyfrannu at y Gyfadran neu'r Brifysgol drwy rolau megis Tiwtor Derbyn, Cydlynydd Arholiadau</li><li>Fel aelod o banel asesu mewnol/asesiad cymheiriaid ar gyfer grantiau a/neu allbynnau</li><li>Fel arweinydd Uned Asesu ar gyfer y REF</li><li>Fel arholwr PhD a Chadeirydd</li></ul> |
| **2.** | Cymryd Rhan mewn Gweithgareddau Proffesiynol<br><br>Ymgymryd â gweithgareddau proffesiynol sy’n ymwneud â’r ddisgyblaeth drwy rwydweithio mewn cynadleddau neu gymryd rhan mewn grwpiau allanol. | Eich 2 gyfraniad mwyaf arwyddocaol yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf sy’n dangos eich cyfraniad a’ch effaith personol. | *Arddangoswch, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol, y raddfa ac effaith yr hyn rydych wedi'i wneud. Dyma rai meysydd enghreifftiol fel canllaw:*<ul><li>aelod gweithredol o rwydweithiau allanol, e.e. er mwyn sicrhau cyllid neu hybu dealltwriaeth</li><li>drwy ddatblygu cysylltiadau y tu hwnt i dimau ymchwil neu dimau addysgu er mwyn adeiladu ar arbenigedd academaidd, ac er mwyn trafod a rhannu gwybodaeth a syniadau</li><li>cymryd rhan mewn grwpiau pwnc arbenigol ar lefel genedlaethol (e.e. ar gyfer ymchwil neu ysgolheictod)</li><li>fel aelod o ac ymwneud â chorff proffesiynol allanol drwy fynychu digwyddiadau</li><li>drwy gorff allanol neu broffesiynol</li><li>drwy rwydweithiau proffesiynol</li><li>gyda rhanddeiliaid allanol</li><li>cynnal cymwysterau/statws proffesiynol</li></ul> |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • rhwydweithio mewn cynadleddau gan arwain at ganlyniad, e.e. partneriaeth newydd |
| **3.** | <u>Rheoli Eich Hunan ac Eraill</u><br><br>Cefnogi a galluogi datblygiad cydweithwyr, a'ch datblygiad personol | Eich 2 gyfraniad mwyaf arwyddocaol yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf sy'n dangos eich cyfraniad a'ch effaith personol. | *Arddangoswch, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol, y raddfa ac effaith yr hyn rydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw: (Noder.1 Peidiwch â defnyddio enwau personol yn yr enghreifftiau.) (Noder. 2 Yn achos rolau uwch, efallai y bydd y pwyslais ar gefnogi a datblygu cydweithwyr)*<br><br>• arddangos gwerthoedd arweinyddol er mwyn i eraill eu hefelychu<br>• defnyddio ymagwedd hyfforddiant at ymgysylltu â chydweithwyr<br>• cyfrannu at hybu amgylchedd sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch a chydweithrediad<br>• cyfraniad at weithio ar y cyd<br>• ceisio adborth gan gydweithwyr a gweithredu arno<br>• arddangos gwelliant parhaus drwy, er enghraifft, adolygu llawlyfrau modiwlau neu gyrsiau, cofrestru, recriwtio, derbyniadau neu'r cwricwlwm a'r effaith a gafodd hynny<br>• sefydlu a chynnal datblygiad gyrfa trwy hyfforddiant a gweithgareddau datblygu (e.e. mentora, adolygu'r Adolygiad Datblygiad Personol (PDR), paratoi ceisiadau am arian ymchwil neu adolygu addysgu cydweithwyr)<br>• mentora a datblygu cydweithwyr.<br>• Wedi cwblhau hyfforddiant Uniondeb Ymchwil yn llwyddiannus yn ystod y 3 blynedd diwethaf |

**Noder:**

- Mae'r Lefelau Perfformiad Dangosol wedi eu cyfrifo ar sail Cyfatebiaeth llawn amser (FTE). Er mwyn sicrhau tryloywder, cysondeb a chynhwysiant, rhaid i'r disgwyliadau fod yn realistig o safbwynt maint yr allbwn. Rhaid i'r lefelau yma gael eu cyfrif pro-rata ar gyfer y rhai sydd ar gytundeb rhan amser. Dylai staff sydd ag amgylchiadau personol gael y cyfle i rannu effaith yr amgylchiadau hyn ar eu gweithgaredd.
- Pan fydd mwy nag un Lefel Perfformiad Dangosol, dynodir blaenoriaeth strategol y Brifysgol mewn print bras.

Swansea University Prifysgol Abertawe

## Llwybrau Gyrfa Academaidd. Meini Prawf Craidd – Ymchwil

| | Maen Prawf | Lefel Perfformiad Dangosol | Enghreifftiau |
|---|---|---|---|
| **1.** | <u>Allbynnau a Gweithgareddau Ymchwil</u><br><br>Rhannu casgliadau ymchwil â'r Brifysgol yn ysgrifenedig, ar lafar neu drwy gyfryngau addas eraill yn fewnol ac yn allanol. | Dau gyhoeddiad o safon mewn 5 mlynedd. | *Dangos cyfraniad personol ac effaith canfyddiad(au) eich ymchwil a/neu eich arloesi a'ch rôl benodol chi yn yr effaith a ddisgrifir.*<br>*Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:*<br><br>• cyhoeddiadau a/neu allbwn arall yn y parth cyhoeddus - e.e. adolygiadau wedi'u hadolygu gan gymheiriaid, llyfrau/penodau ysgolheigaidd, erthyglau, cyfrolau casgliad, argraffiadau testunau, cyfieithiadau, gweithiau creadigol, gwefannau, setiau data, papurau polisi/dogfennau/canllawiau, adroddiadau ymchwil, meddalwedd ar lefel sy'n briodol ar gyfer y ddisgyblaeth academaidd honno |
| **2.** | <u>Prosiectau a Grantiau Ymchwil</u><br><br>Sicrhau'r adnoddau angenrheidiol i danategu gweithgarwch ymchwil, yn llwyddiannus fel y bo'n briodol i'r ddisgyblaeth.<br><br>A/NEU | Tystiolaeth o sicrhau adnoddau ymchwil allanol sy'n berthnasol i'r ddisgyblaeth dros gyfnod o bum mlynedd, fel y rhai a nodir yn y blwch enghraifft.<br><br>A/NEU | *Arddangoswch, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol, y raddfa ac effaith yr hyn rydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:*<br><br>• gall y mathau o adnoddau amrywio, yn ddibynnol ar y maes, a gellir eu cyflawni naill ai'n annibynnol neu ar y cyd ag eraill<br>• cyfraniadau annibynnol neu gyfraniadau sylweddol er mwyn sicrhau nawdd neu dderbyn adnoddau eraill angenrheidiol er mwyn cyflawni'r ymchwil<br>• sicrhau mynediad i lyfrgell neu gasgliad arbennig, sicrhau grantiau teithio, nawdd i lwyfannu perfformiad neu arddangosfa, sefydlu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ddangos cyfraniad at oruchwylio myfyriwr ymchwil ôl-raddedig yn llwyddiannus. | Weithredu fel rhan o dîm goruchwylio myfyriwr ymchwil ôl-raddedig dros gyfnod o bum mlynedd. | rhwydwaith, cysylltu nawdd/gweithgaredd PER gyda phrosiectau ymchwil<br>• tystiolaeth fod y prosiect ymchwil wedi ei gynnal yn llwyddiannus.<br>• Sylwadau mewn perthynas â'ch cyfraniad penodol at grantiau aml-ymgeisydd, e.e. yn ystod y camau cyflwyno cais a chyflawni'r grant<br>• tystiolaeth o gyfrannu at oruchwylio myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, PhD, MRes neu MRes neu fod yn ail oruchwyliwr<br>• ystiolaeth o weithredu fel goruchwyliwr, cyd-oruchwyliwr neu ail oruchwyliwr ar gyfer traethodau estynedig, traethodau ymchwil a phrosiectau ôl-raddedig |
| **3.** | <u>Cydnabyddiaeth</u><br><br>Cyfrannu at y gymuned academaidd ehangach gydag effaith amlwg a chydnabyddiaeth oddi wrth ffynonellau mewnol ac allanol. | Tystiolaeth o gefnogi'r gymuned broffesiynol berthnasol<br><br>Un cyflwyniad mewn cynhadledd, seminar neu weithdy â chyrhaeddiad/effaith allanol y flwyddyn dros gyfnod o 5 mlynedd. | *Arddangoswch, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol, y raddfa ac effaith yr hyn rydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:*<br><br>• gwneud cyflwyniadau mewn cynadleddau, gweithdai a fforymau eraill (mewnol ac allanol) yn y DU a lle bo'n berthnasol mewn gwlad arall<br>• ymgysylltu â chyrff cyhoeddus, e.e. Rhaglenni Dogfen y BBC, amgueddfeydd, gwyliau gwyddonol neu gelfyddydol<br>• ymgysylltu â chyrff polisi, e.e. Comisiynau, Pwyllgorau Seneddol, Cyrff Anllywodraethol (NGO)<br>• paratoi cyflwyniadau/gweithgareddau/deunydd ar gyfer ymgysylltiad y cyhoedd â'r Brifysgol, e.e. Gŵyl Wyddoniaeth Abertawe/*Famelab*/Oriel/Caffi Gwyddoniaeth/Ymchwil fel Celfyddyd.<br>• Gweithredu fel aelod o banel dyfarnu cyllid allanol, fel arholwr allanol ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig, adolygiad ysgolheigaidd |

**Noder:**

- Mae’r Lefelau Perfformiad Dangosol wedi eu cyfrifo ar sail Cyfatebiaeth llawn amser (FTE). Er mwyn sicrhau tryloywder, cysondeb a chynhwysiant, rhaid i’r disgwyliadau fod yn realistig o safbwynt maint yr allbwn. Rhaid i’r lefelau yma gael eu cyfrif pro-rata ar gyfer y rhai sydd ar gytundeb rhan amser. Dylai staff sydd ag amgylchiadau personol gael y cyfle i rannu effaith yr amgylchiadau hyn ar eu gweithgaredd.
- Pan fydd mwy nag un Lefel Perfformiad Dangosol, dynodir blaenoriaeth strategol y Brifysgol mewn print bras.

# Llwybrau Gyrfa Academaidd. Meini Prawf Craidd - Addysgu

| | Maen Prawf | Lefel Perfformiad Dangosol | Enghreifftiau |
|---|---|---|---|
| 1. | Cyflwyno Addysgu<br><br>Cyfrannu at gyrsiau o fewn y portffolio dysgu, adolygu a diweddaru'r deunyddiau ar gyfer y cyrsiau a ddarparu sesiynau a gyflwynwyd gan ddefnyddio'r dulliau cyflwyno mwyaf addas.<br><br>Mae hyn yn cynnwys sicrhau eich bod yn dilyn y polisi a'r drefn Dysgu ac Addysgu.<br><br>Datblygu a chyflwyno'r addysgu i safon addas. Asesu a sicrhau ansawdd elfennau o'r portffolio dysgu, o fewn yr uned academaidd.<br><br>Ymgymryd â datblygiad rhaglenni cyrsiau/modiwlau. Cyfrannu at Brofiad y Myfyriwr a Chyflogadwyedd.<br><br>Ymateb i adborth | Cyflenwi<br><br>• Tystiolaeth o effaith gadarnhaol ar addysgu Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) y Brifysgol<br>– gwell dilyniant/dargadwedd (*retention*)<br>– mentora academaidd<br>– canlyniadau llwyddiannus i fodiwlau - y nifer o raddau dosbarth cyntaf, 2.1 ac ati, gan leihau cyfradd methiant modiwlau.<br><br>• **Sgôr Adborth ar gyfer Cwestiynau 1, 2 a 3 o Adborth Myfyrwyr ar Fodiwlau yn y chwartel isaf, o leiaf, ar gyfartaledd dros gyfnod o 3 mlynedd.** | *Arddangoswch, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol, y raddfa ac effaith yr hyn rydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:*<br><br>Cyflenwi<br><br>• sylwadau'n ymwneud â swm ac ystod yr addysgu<br>• myfyrio ar gyfraddau ymateb i adborth myfyrwyr<br>• datblygu cyrsiau newydd sydd wedi denu myfyrwyr<br>• gweithredu fel cydlynydd modiwl<br>• cymryd cyfrifoldeb am fodiwl Israddedig penodol/rhannau o fodiwl neu greu modiwl newydd<br>• gweithio gydag aelodau eraill o dîm y rhaglen i wella'r gwaith o lywodraethu a darparu'r rhaglen<br>• tystiolaeth o ymgysylltu gyda'r corff myfyrwyr er mwyn cynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n cynnig adborth a chryfhau llais y myfyriwr<br>• sicrhau fod y cynnwys a'r deunydd addysgu'n gyfredol, yn cynnwys deilliannau dysgu, cynlluniau'r modiwlau, deunyddiau dysgu, cynlluniau asesu a strategaeth addysgu'r modiwlau<br>• ategir addysgu gan y ddealltwriaeth ddiweddaraf/gyfredol fel y bo'n briodol i lefel myfyrwyr, yn seiliedig ar ymchwil/ysgolheictod yn y maes ac yn tynnu'n uniongyrchol ar y cysylltiad hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ymgysylltu â thîm y rhaglen | • Tystiolaeth o lwyddiant wrth oruchwylio prosiectau myfyrwyr (gan ddangos y nifer o fyfyrwyr a oruchwyliwyd, a'u cefnogi drwy'r broses ymchwil).<br><br>• Tystiolaeth o adborth llwyddiannus gan ddysgwyr proffesiynol.<br><br>• Tystiolaeth o ymdrech weithredol i geisio adborth | • sicrhau asesu effeithiol, yn gysylltiedig yn glir â'r cwricwlwm, ymateb ac adborth i'r myfyrwyr o fewn cyfnod addas o amser, cydymffurfio ag amserlenni y cytunwyd arnynt o safbwynt cyflwyno adborth<br>• cynllunio a chyflwyno eich addysgu gan ddefnyddio arddull/dull addas i gyflawni'r amcanion dysgu a ddynodwyd<br>• goruchwylio myfyrwyr prosiect ar gyfer graddau israddedig ac ôl-radd sy'n cael eu haddysgu<br>• tystiolaeth o fod yn fentor academaidd effeithiol (gallai tystiolaeth gynnwys cyfraddau tynnu'n ôl a chadw ar lefel rhaglen, nifer y myfyrwyr sy'n cael eu tiwtora, cymorth gyda gweithgareddau cyflogadwyedd, ehangu mynediad a chyfranogiad)<br>• paratoi a chyflwyno Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) a derbyn ac ymateb i adborth.<br>• derbyn adborth cadarnhaol gan fyfyrwyr (e.e. gwerthusiad modiwlau, cyfarfodydd gyda myfyrwyr, gwerthusiad ar-lein drwy arolygon adborth myfyrwyr) |
| **2.** | <u>Addysgu Personol a  Gwella Ymarfer</u><br><br>Dangos ymwybyddiaeth o weithgareddau ymchwil ac arloesi presennol yn y maes ac integreiddio hyn yn eich ymarfer addysgu drwy | • Ymgorffori gwelliannau i'r addysgu'n llwyddiannus.<br><br>• Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus drwy DPP dros y tair blynedd diwethaf a thystiolaeth o effaith hyn ar addysgu. | *Arddangoswch, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol, y raddfa ac effaith yr hyn rydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:*<br><br>• Cyfranogiad mewn gweithgareddau DPP, megis adolygiad gan gymheiriaid, gweithdai, cyrsiau datblygiad proffesiynol sydd wedi arwain at welliant yn eich ymarfer addysgu.<br>• cyfrannu'n weithredol at adolygu a datblygu darpariaeth<br>• addasu dulliau a chynnwys addysgu fel y bo'n briodol gan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddatblygu eich ymarfer gan ystyried y gweithgarwch hwn.<br><br>A/NEU<br><br>Gyfrifoldeb am weithio gydag eraill i ddatblygu ymarfer addysgu.<br><br>Sylwer: Mae'r maen prawf hwn yn canolbwyntio ar eich cyfraniad a'ch effaith ar naill ai eich addysgu a'ch myfyrwyr eich hun neu ar ymarfer addysgu eich cydweithwyr a'u myfyrwyr. | A/NEU<br><br>• Dystiolaeth o gyfrannu at ddatblygiad addysgu Ysgol, Pwnc neu Adran dros y tair blynedd diwethaf a thystiolaeth o effaith hynny ar addysgu<br><br>• Tystiolaeth o adborth gan gymheiriaid. | ystyried adborth ffurfiol ac anffurfiol a dderbynnir<br>• awgrymu syniadau i wella a diweddaru cwrs penodol er mwyn ei wneud yn fwy deniadol i fyfyrwyr<br>• diweddaru adnoddau er mwyn cydymffurfio â chynnwys polisïau cyfredol a gofynion cyrff proffesiynol<br>• addasu gwaith yng ngoleuni sylwadau arholwyr allanol neu gymheiriaid<br>• arloesedd o safbwynt dulliau addysgu ac asesu’r arloesedd hwnnw<br>• adolygu’r addysgu er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol i brofiad cyflawn y myfyrwyr ac ystyried cyflogadwyedd neu faterion mynediad ehangach<br>• rhoi ystyriaeth i anghenion penodol myfyrwyr rhyngwladol/myfyrwyr anabl/myfyrwyr heb gymwysterau traddodiadol/myfyrwyr o gefndiroedd llai traddodiadol wrth ddarparu addysgu<br>• cyfrannu at ddatblygiad addysgu Cyfadran/Ysgol/Adran<br>• lledaenu arfer da i eraill<br>• cymryd rhan yn gadarnhaol yn y broses arsylwi ar gymheiriaid<br>• cyfrannu at adolygu ymagweddau addysgu neu gwricwla modiwl/rhaglen<br>• cyfraniad at gynnydd Adolygiad Ysgol<br>• presenoldeb mewn cynhadledd, sydd wedi arwain at welliant mewn ymarfer addysgu<br><br>Ceir enghreifftiau pellach o arloesedd addysgol ar wefan Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (SALT) ar https://salt.swan.ac.uk/cpd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **3.** | <u>Cydnabyddiaeth broffesiynol</u>.<br><br>Ymgymryd â a chwblhau cymhwyster addysgu proffesiynol. | • **Yn meddu ar neu'n gweithio tuag at ac yn ennill Cymrodoriaeth yr Academi Addysg Uwch (HEA) neu gyfatebol fel y'i cymeradwyir gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).**<br>(Gweler y diffiniad o "weithio tuag at" yn atodiad C) | *Arddangoswch, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol, y raddfa ac effaith yr hyn rydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:*<br><br>• cymrodoriaeth o'r Academi Addysg Uwch (HEA) neu'n gweithio tuag at Gymrodoriaeth HEA neu gymhwyster cyfatebol e.e. Academi Addysgwyr Meddygol (AOME) (Cydnabyddiaeth Addysgwyr Meddygol)<br>• ymgymryd â a chwblhau cymhwyster addysgu cydnabyddedig megis y cymhwyster achrededig Dysgu mewn Addysg Uwch (tHE), Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) neu gymhwyster dysgu proffesiynol cydnabyddedig arall<br>• cyflawni gweithgareddau angenrheidiol eraill o ddydd i ddydd<br>• cydnabyddiaeth cymheiriaid yn y maes.<br>• gweithredu fel arholwr allanol<br>• ELTA a dyfarniadau addysgu eraill |

**Noder:**

- Mae'r Lefelau Perfformiad Dangosol wedi eu cyfrifo ar sail Cyfatebiaeth llawn amser (FTE). Er mwyn sicrhau tryloywder, cysondeb a chynhwysiant, rhaid i'r disgwyliadau fod yn realistig o safbwynt maint yr allbwn. Rhaid i'r lefelau yma gael eu cyfrif pro-rata ar gyfer y rhai sydd ar gytundeb rhan amser. Dylai staff sydd ag amgylchiadau personol gael y cyfle i rannu effaith yr amgylchiadau hyn ar eu gweithgaredd.
- Pan fydd mwy nag un Lefel Perfformiad Dangosol, dynodir blaenoriaeth strategol y Brifysgol mewn print bras.

# Llwybrau Gyrfa Academaidd. Meini Prawf Uwch - Ymchwil

| | Maen Prawf | Lefel Perfformiad Dangosol | Enghreifftiau |
|---|---|---|---|
| 1. | <u>Allbynnau a Gweithgaredd Ymchwil</u><br><br>Cydnabyddiaeth o ragoriaeth o ran arwyddocâd cyrhaeddiant ac effaith ymchwil o fewn y ddisgyblaeth/maes perthnasol.<br><br>Caiff hyn ei arddangos drwy gynlluniau ar gyfer, a hanes nodedig o gyhoeddi ymchwil o'r radd flaenaf neu ragorol ar lefel ryngwladol sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth fyd-eang gydag effaith amlwg ar ymchwilwyr blaenllaw a'r agenda ymchwil o fewn y ddisgyblaeth. | • **Dau gynnyrch 4* o fewn 5 mlynedd ac o leiaf ddau gynnyrch 3*.**<br><br>**NEU**<br><br>• **Prif Awdur astudiaeth achos effaith ar gyfer REF 2021 (Gwyrdd ar bob lefel) ag o leiaf bedwar allbwn 3* yn ystod y pum mlynedd diwethaf.** | *Dangos cyfraniad personol ac effaith canfyddiad(au) eich ymchwil a/neu eich arloesi a'ch rôl benodol chi yn yr effaith a ddisgrifir.*<br>*Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:*<br><br>• sylwadau'n ymwneud â sgôr ansawdd cyhoeddiad (0-12)*, yn enwedig os yw'r cyhoeddiad hwnnw ar y ffin rhwng un lefel a'r llall<br>• enw da ar lefel ryngwladol am gorff o waith sy'n cynnwys cynnyrch rhagorol ar lefel ryngwladol a byd-eang<br>• hanes parhaus o gyhoeddi mewn cyfnodolion o safon uchel sy'n cael eu cydnabod ar lefel ryngwladol<br>• gwneud cyfraniad blaenllaw at astudiaeth achos effaith i'w hystyried i'w chyflwyno i'r REF, er enghraifft fel Prif Awdur/Prif Awdur ar y Cyd<br>• tystiolaeth arall a fyddai'n dangos ansawdd cyhoeddiad, megis ansawdd y cyfnodolyn, y cyhoeddwr, fel y bo'n briodol i'r maes<br>• canfyddiadau ymchwil sydd wedi cael effaith sylweddol ac amlwg o ran cyrhaeddiant ac arwyddocâd ar fusnes, llywodraeth, iechyd a lles, y cyhoedd, yr amgylchedd neu fywyd diwylliannol neu newid ymddygiad, arferion, polisi neu gyflwyniad gwasanaethau. Dylanwadu ar ac ychwanegu gwerth at gorff allanol mewn modd uniongyrchol a mesuradwy<br>• creu cynlluniau gydag amcanion ac amserlenni penodol ar gyfer ymchwil rhaglennol mewn maes, gan gynnwys ceisiadau am arian, datblygu capasiti ymchwil a chyhoeddiadau dros y 5 mlynedd nesaf |

Swansea University Prifysgol Abertawe

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • datblygu timau a grwpiau ymchwil i ymchwilio i fater penodol o fewn y ddisgyblaeth<br>• mentora cydweithwyr o safbwynt cynnyrch a gweithgaredd ymchwil<br>• rôl arweiniol wrth sicrhau bod gweithgareddau'n cydweddu â strategaeth ymchwil y Brifysgol a'r Gyfadran o ran allbynnau a gweithgarwch<br>• hanes cyson o gyflawni o leiaf un o'r canlynol fel y bo'n briodol i'r ddisgyblaeth e.e. Mabwysiadu prosesau a llwybrau lledaenu Mynediad Agored; Cyfraniadau at feddalwedd Mynediad Agored, prosiectau cyfrifiadura ar raddfa fawr, deunyddiau astudio, protocolau astudio cyn cofrestru, rhyddhau data sy'n hygyrch i'r cyhoedd ar ei ffurfiau lluosog.<br><br>*Cysylltwch â'ch Swyddog REF am wybodaeth bellach ynglŷn â sgôr ansawdd cyhoeddiadau (0-12) |
| **2.** | <u>Prosiectau a Grantiau Ymchwil</u><br><br>Hanes parhaus o ddatblygu ac arwain rhaglenni sylweddol o ymchwil unigol neu mewn cydweithrediad ag eraill ar gyfer grantiau cenedlaethol neu ryngwladol neu ddyfarniadau eraill, fel sy'n briodol i'r ddisgyblaeth. | Hanes o sicrhau dyfarniadau a rheoli grantiau ymchwil gan gyrff ariannu allanol, neu brosiectau neu weithgareddau cyfwerth, dros gyfnod o bum mlynedd, fel Prif Ymchwilydd, â chyfanswm gwerth y band Chwartel Uchaf ar gyfer y ddisgyblaeth (gweler y tabl yn Atodiad A) | *Arddangoswch, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol, y raddfa ac effaith yr hyn rydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:*<br>• hanes o ddenu nawdd ar gyfer ymchwil yn llwyddiannus fel Prif Ymchwilydd<br>• hanes o ddenu nawdd ar gyfer cynnal cyfres o seminarau/cynadleddau<br>• hanes o sicrhau nawdd ymchwil allanol ar gyfer adnoddau, gan gynnwys teithio, ysgoloriaethau myfyrwyr ac yn y blaen<br>• llwyddiant parhaus wrth ddenu cyllid gan UKRI, ymddiriedolaethau elusennol o bwys (e.e. Wellcome a Leverhulme), a diwydiant |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • datblygu grwpiau ymchwil traws-sefydliadol a thraws-ddisgyblaethol<br>• datblygu cysylltiadau allanol gyda'r bwriad o gynnwys gweithio ar y cyd fel rhan o'r cais am grant ymchwil<br>• mentora cydweithwyr o ran ceisiadau am grant, er enghraifft, cynnal adolygiad cymheiriaid o fersiynau drafft ceisiadau am grantiau ymchwil<br>• rôl arweiniol wrth sicrhau bod gweithgareddau'n cydweddu â strategaeth ymchwil y Brifysgol a'r Gyfadran o ran prosiectau a grantiau<br>• Hanes cyson o arweinyddiaeth wrth gyflawni grant neu brosiect mawr<br>• Sylwadau mewn perthynas â'ch cyfraniad penodol at grantiau aml-ymgeisydd, e.e. yn ystod y camau cyflwyno cais a chyflawni'r grant<br>• Arweinyddiaeth gyson o newid trawsnewidiol yn y gymuned ymchwil ôl-raddedig (sy'n briodol i'r ddisgyblaeth) drwy, er enghraifft: cofnod cyson o arwain ceisiadau llwyddiannus ar gyfer amrywiaeth o ganolfannau hyfforddiant doethurol a/neu eu hadnewyddu neu brofiad cyfwerth creu cydweithrediadau cenedlaethol neu ryngwladol sylweddol sy'n arwain at gyllid allanol ar gyfer myfyrwyr ymchwil |
| **3.** | <u>Cydnabyddiaeth</u><br>Cydnabyddiaeth fel awdurdod ac arweinydd yn y ddisgyblaeth/maes neu'r gymuned broffesiynol gydag | • Tystiolaeth o gydnabyddiaeth barhaus gan gymheiriaid rhyngwladol dros y pum mlynedd diwethaf | *Arddangoswch, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol, y raddfa ac effaith yr hyn rydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:*<br>• sefydlu ac arwain prosiectau ar y cyd er mwyn datblygu canllawiau ymchwil rhyngwladol mewn meysydd penodol er mwyn gwella partneriaethau gwaith |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | effaith amlwg ar gyfeiriad strategol ymchwil i'r dyfodol. | • Hanes parhaus o gymryd rhan mewn cynadleddau sy'n cyfateb i fynychu un gynhadledd o arwyddocâd rhyngwladol bob blwyddyn fel siaradwr gwadd yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf. Dylai o leiaf un fod fel siaradwr sesiwn llawn. | • cadeirio pwyllgor gwaith cymdeithas arbenigol ac arwain datblygiad dull mwy strategol yn y maes ymchwil hwn<br>• bod yn Gadeirydd panel neu is-banel y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, ymgymryd ag uwch rôl ymgynghori gydag UKRI neu'r prif elusennau.<br>• hanes parhaus o roi cyflwyniadau gwahoddedig neu gyflwyniadau cyweirnod<br>• derbyn gwobrau neu gydnabyddiaethau tebyg gan gyrff a grwpiau o gymheiriaid<br>• cynghori cyrff llywodraethol neu rai sy'n llunio polisïau<br>• aelodaeth lefel uchel o gyrff proffesiynol perthnasol neu debyg<br>• Asesydd Nawdd ar gyfer Ymchwil<br>• aelod gweithredol o fwrdd golygyddol cyfnodolyn uchel ei barch<br>• trefnu cynhadledd ryngwladol mewn maes newydd<br>• mentor cydweithwyr o ran cydnabyddiaeth ymchwil<br>• arwain trefnu cynhadledd ryngwladol a golygu'r gweithrediadau yn llwyddiannus.<br>• metrigau cyhoeddi |
| **4.** | <u>Goruchwylio a Datblygu Myfyrwyr Ymchwil Ôl-radd</u><br><br>Hanes helaeth a chyson o oruchwylio myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n cwblhau'n llwyddiannus (gan gynnwys PhD) | • **Goruchwylio o leiaf 2 fyfyriwr PhD neu Ddoethuriaeth Broffesiynol (fel y bo'n briodol i'r ddisgyblaeth) i gwblhau'n llwyddiannus, fel goruchwyliwr cyntaf, mewn cyfnod o 5 mlynedd ac, yn** | *Arddangoswch, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol, y raddfa ac effaith yr hyn rydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:*<br><br>• Sylwadau ynghylch cyfraddau cwblhau a newidiadau mewn cymwysterau ymadael<br>• Tystiolaeth o lwyddiant, o gofrestru i gwblhau<br>• goruchwylio ymchwilwyr ôl-raddedig<br>• wedi derbyn adborth cadarnhaol gan fyfyrwyr, cydweithwyr ac arholwyr allanol<br>• hanes llwyddiannus o oruchwylio graddedigion gyda |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **nodweddiadol, weithredu fel goruchwyliwr cyntaf ar gyfer o leiaf 2 fyfyriwr ymchwil ôl-raddedig y flwyddyn, fel rhan o hanes helaeth a chyson o oruchwylio myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig i gwblhau'n llwyddiannus (gan gynnwys PhD).**<br><br>• Arholwr PhD. | thystiolaeth bod bob myfyriwr llawn amser yn cwblhau o fewn 4 mlynedd<br>• clod/gwobrau a enillwyd gan fyfyrwyr a oruchwyliwyd<br>• arwain cydweithwyr goruchwylio, rhannu arfer gorau a gwersi a ddysgwyd, ac ymwneud â rhaglen hyfforddi'r Swyddfa Ymchwil Ôl-raddedig er mwyn helpu i gynllunio a chefnogi sesiynau a deunyddiau hyfforddi<br>• mentora cydweithwyr mewn perthynas â goruchwylio myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig<br>• hanes blaenorol o weithio fel arholwr allanol ar gyfer graddau PhD<br>• arwain gwaith derbyn/recriwtio myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig<br>• bod yn aelod o bwyllgorau Ymchwil Ôl-raddedig y Gyfadran<br>• rôl arweiniol wrth sicrhau bod gweithgareddau'n cydweddu â strategaeth goruchwylio myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig y Brifysgol a'r Gyfadran<br>• arwain gweithgareddau ar lefel Prifysgol sy'n newid, hybu ac ymgorffori diwylliant o ymgysylltu PGR, gan arwain at ymchwil sy'n cael effaith dylanwadol. |

**Noder:**

- Mae'r Lefelau Perfformiad Dangosol wedi eu cyfrifo ar sail Cyfatebiaeth llawn amser (FTE). Er mwyn sicrhau tryloywder, cysondeb a chynhwysiant, rhaid i'r disgwyliadau fod yn realistig o safbwynt maint yr allbwn. Rhaid i'r lefelau yma gael eu cyfrif pro-rata ar gyfer y rhai sydd ar gytundeb rhan amser. Dylai staff sydd ag amgylchiadau personol gael y cyfle i rannu effaith yr amgylchiadau hyn ar eu gweithgaredd.
- Pan fydd mwy nag un Lefel Perfformiad Dangosol, dynodir blaenoriaeth strategol y Brifysgol mewn print bras.

## Llwybrau Gyrfa Academaidd Meini Prawf Uwch – Addysgu ac Ysgolheictod

| | Maen Prawf | Lefel Perfformiad Dangosol | Enghreifftiau |
|---|---|---|---|
| **1.** | <u>Cyflwyno Addysgu</u><br>Cyflwyno'r addysgu, asesu a sicrhau ansawdd portffolios astudio mewn modd effeithiol.<br><br>Ymateb i adborth a dderbynnir ac adolygu gweithgareddau addysgu ar lefel Cyfadran, er mwyn sicrhau bod deilliannau addysgu'n cael eu cyflawni'n effeithiol, gan ystyried adborth a dderbynnir<br><br>Arwain adolygiad o gyrsiau, gan gyfeirio at gynnwys a deunyddiau, datblygiad, cynllunio a diweddaru deunyddiau yn unol â safonau ansawdd, gan ddatblygu eraill wrth wneud hynny. | <u>Cyflenwi</u><br>• Tystiolaeth o effaith addysgu drwy<br>– cynnydd yn niferoedd myfyrwyr ar draws y Gyfadran<br>– cynnydd o ran y gyfran o'r farchnad (e.e. o'i gymharu â sefydliadau eraill)<br>– gwell effaith ariannol ar y Gyfadran (e.e. o ganlyniad i gyrsiau newydd a/neu gynnydd yn niferoedd myfyrwyr)<br><br>• **Sgôr Adborth ar gyfer Cwestiynau 1, 2 a 3 o Adborth Myfyrwyr ar Fodiwlau yn y chwartel uchaf, o** | *Arddangoswch, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol, y raddfa ac effaith yr hyn rydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:*<br><br>• sylwadau'n ymwneud â maint ac ystod yr addysgu<br>• myfyrio ar gyfraddau ymateb i adborth myfyrwyr<br>• darparu arweinyddiaeth strategol i Gyfadran sy'n cyflwyno addysgu o safon uchel, a ddangosir gan adborth cadarnhaol gan fyfyrwyr, cydweithwyr ac arholwyr allanol<br>• rôl uwch â chyfrifoldeb am ddarpariaeth dysgu ac addysgu eang, cymryd cyfrifoldeb am ddatblygiad ac adolygiad strategol portffolio.<br>• Arwain Adolygiad o'r Rhaglen Gyfnodol, Achredu Cyrff Proffesiynol neu adolygiad arwyddocaol arall<br>• datblygu a gweithredu ymagweddau newydd yn y Gyfadran at adborth ac asesu, dysgu ac addysgu neu agweddau eraill ar brofiad myfyrwyr ar lefel rhaglen neu rannau o raglen<br>• tystiolaeth o ymgysylltu gyda'r corff myfyrwyr er mwyn cynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n cynnig adborth a chryfhau llais y myfyriwr<br>• goruchwylio myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ar raglenni PhD ac MRes, neu draethodau estynedig sy'n gysylltiedig â'r maes ymchwil penodol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **leiaf, ar gyfartaledd dros gyfnod o 3 mlynedd.** ***(gweler y manylion yn ATODIAD B).***<br><br>• Tystiolaeth o ymdrech weithredol i geisio adborth<br><br>• Arwain wrth ddatblygu ac adolygu portffolios y Gyfadran yn unol â blaenoriaethau sefydliadol yn y pum mlynedd diwethaf<br><br>• Arwain set o Adolygiadau Cyfnodol o'r Rhaglen neu set o achrediadau corff proffesiynol yn llwyddiannus, gyda thystiolaeth o ganlyniadau o ansawdd uchel.<br><br>• Datblygu portffolios strategol newydd yn unol â blaenoriaethau'r Gyfadran | • derbyn adborth cadarnhaol gan fyfyrwyr (e.e. gwerthusiad modiwlau, cyfarfodydd gyda myfyrwyr, gwerthusiad ar-lein drwy arolygon adborth myfyrwyr) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | a'r sefydliad yn ystod y pum mlynedd diwethaf | |
| **2.** | <u>Addysgu Personol a Gwella Ymarfer</u><br><br>Gweithgareddau addysgu sy'n seiliedig ar ymchwil personol neu ymchwil gan eraill neu wybodaeth am arferion personol.<br>Mae'r rhain yn cynnwys (i) y gweithgareddau addysgu hynny y mae'r unigolyn yn ymgymryd â nhw, a<br>(ii) bod cynnwys yr addysgu y mae'r unigolyn yn ei gyflwyno yn wybodaeth gyfredol, a (iii) arwain newid mewn ymarfer addysgu neu brofiad myfyrwyr ar draws y Gyfadran, (iv) sefydlu mentrau strategol mewn dysgu ac addysgu yn y Brifysgol<br><br>Sylwer: Mae'r maen prawf hwn yn canolbwyntio ar eich cyfraniad a'ch effaith ar eich | • Tystiolaeth o lwyddiant wrth wella eich addysgu eich hun mewn cysylltiad â meincnodau'r ASA yn ystod y pum mlynedd diwethaf.<br><br>• Cynnig sefydliadol o welliant ar gyfer dysgu ac addysgu a fabwysiadwyd, ynghyd â thystiolaeth o werthusiad o fewn y 5 mlynedd ddiwethaf. | *Arddangoswch, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol, y raddfa ac effaith yr hyn rydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:*<br><br>• arwain wrth adolygu neu ddatblygu ymagweddau at ysgogwyr a newid strategol ar lefel y Gyfadran<br>• gweithio ar lefel uwch i lunio strategaeth y Gyfadran neu'r Brifysgol a dylanwadu arni<br>• hybu arloesedd o ran arfer drwy esiampl bersonol a/neu rannu<br>• Cyfranogiad mewn gweithgareddau DPP, megis adolygiad gan gymheiriaid, gweithdai, cyrsiau datblygiad proffesiynol sydd wedi arwain at welliant yn eich ymarfer addysgu eich hun<br>• arwain arloesedd addysgol o fewn corff proffesiynol sydd wedi cael effaith ar draws y sector.<br>• gweithio gydag aelodau eraill o dimau rhaglenni eraill i ddarparu addysgu rhyngbroffesiynol<br><br>Ceir enghreifftiau pellach o arloesedd addysgol ar wefan Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (SALT) ar https://salt.swan.ac.uk/cy/cpd// |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | addysgu personol ac ar eich myfyrwyr eich hun. | | |
| **3.** | <u>Cydnabyddiaeth broffesiynol</u>.<br><br>Cydnabyddiaeth o ragoriaeth o ran cyrhaeddiant, arwyddocâd ac effaith o fewn y maes/disgyblaeth berthnasol a ddangosir drwy hanes parhaus a nodedig o ganlyniadau llwyddiannus, gydag effaith amlwg ar arferion dysgu o fewn Addysg Uwch, llywodraeth neu sector arall, gyda chydnabyddiaeth ryngwladol.<br>Cydnabyddiaeth gan gymheiriaid allanol fel arweinydd yn y ddisgyblaeth/sector berthnasol. Chwarae rôl arweiniol o fewn y ddisgyblaeth/sector, gydag effaith amlwg ar gyfeiriad arferion, strategaeth a phrosiectau i'r dyfodol. | • **Siarad mewn dwy gynhadledd ryngwladol fel siaradwr sesiwn llawn neu Gadeirydd sesiwn yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf.**<br><br>• **Cydnabyddiaeth genedlaethol am addysgu/effaith strategol rhagorol, er enghraifft fel Prif Gymrawd yr HEA neu Gymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol, neu gyrraedd y rhestr fer ar gyfer Cymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol.**<br><br>• Hanes cyson o gyhoeddi pedagogaidd gyda thystiolaeth o gydnabyddiaeth ryngwladol yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf. | *Arddangoswch, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol, y raddfa ac effaith yr hyn rydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:*<br><br>• tystiolaeth o gyflwyniadau ym maes arferion pedagogaidd, cynllunio cwricwlwm neu arloesedd addysgol ar lefel genedlaethol neu ryngwladol<br>• tystiolaeth o hanes parhaus o gyhoeddi pedagogaidd ar lefel genedlaethol/ryngwladol neu arwain mewn cynadleddau pedagogaidd<br>• rôl arweiniol ar lefel y Gyfadran neu Brifysgol ym maes gwella addysgu. Dylai enghreifftiau gynnwys: Pennaeth rhaglen addysgu benodedig, Cadeirydd is-bwyllgor Dysgu ac Addysgu ac Ansawdd neu Ddeon<br>• Prif Gymrawd Academi Addysg Uwch neu rôl gyfatebol, corff addysgu proffesiynol (e.e. Academi Addysgwyr Meddygol), neu dystiolaeth o gydnabyddiaeth genedlaethol ym maes addysgu<br>• tystiolaeth o weithio ar lefel ymgynghorol allanol uwch, er enghraifft, fel ymgynghorydd pwnc neu adolygydd rhyngwladol<br>• effaith ar gyrff academaidd, cymdeithasau, grwpiau proffesiynol neu lywodraeth cenedlaethol neu ryngwladol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • Arholwr Allanol i Brifysgol neu Sefydliad Addysg Uwch arall | |
| **4.** | <u>Datblygu Ymarfer eraill</u><br><br>Arwain newid strategol ac arwyddocaol ar draws y Brifysgol ac yn allanol drwy ddatblygu eraill.<br><br>Sylwer: Mae'r maen prawf hwn yn canolbwyntio ar eich cyfraniad a'ch effaith ar ymarfer addysgu eich cydweithwyr ac ar fyfyrwyr eich cydweithwyr. | • **Gwahoddiad i fod yn academydd ymgynghorol ar lefel genedlaethol/ryngwladol yn ystod cyfnod o 3 blynedd.**<br><br>• Prif awdur dau gyhoeddiad ym maes addysgeg yn ystod y pum mlynedd diwethaf gan gynnwys enghreifftiau o effaith<br><br>• Derbyn nawdd allanol ar gyfer Dysgu ac Addysgu o fewn cyfnod o 5 mlynedd.<br><br>• Tystiolaeth o arwain datblygiad addysgu yn y Gyfadran neu'r Brifysgol dros y tair blynedd | *Arddangoswch, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol, y raddfa ac effaith yr hyn rydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:*<br><br>• Tystiolaeth o oruchwylio myfyrwyr mewn ymchwil addysgol ar lefel BSc, MSc neu PhD.<br>• hanes llwyddiannus o sicrhau nawdd er mwyn cefnogi datblygu arfer<br>• arwain gwelliannau mewn arfer dda ar lefel sector neu newid sefydliadol trawsnewidiol<br>• hybu datblygiad sefydliadol cydweithwyr drwy addysgu a chyrff proffesiynol<br>• ymgysylltu â rhwydweithiau neu gymdeithasau addysgol pwnc ar lefel arweinydd<br>• arwain strategaeth addysgu neu ddatblygiad ar draws y Brifysgol<br>• arwain achrediad rhaglenni'r Brifysgol gan gyrff proffesiynol allanol.<br>• Tystiolaeth o asesu gweithredol parhaus (fel aseswr yn SALT neu gydag Advance HE) ceisiadau am Gymrodoriaeth Uwch yr AAU neu Brif Gymrodoriaeth, ceisiadau am Gymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol neu am ddyfarniadau CATE<br>• cymryd rhan yn gadarnhaol yn y broses arsylwi ar gymheiriaid |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | diwethaf a thystiolaeth o effaith hyn ar addysgu | • datblygu cydweithwyr drwy ddatblygu addysgu yn y Gyfadran gan gyflawni allbynnau y gellir eu mesur<br>• arwain wrth wella metrigau'r Gyfadran mewn perthynas â'r TEF yn llwyddiannus<br>• rôl arwain wrth sicrhau bod gweithgareddau'n cydweddu â strategaeth dysgu ac addysgu'r Brifysgol a'r Gyfadran<br>• Cadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd Pwyllgor Dysgu ac Addysgu Cyfadran neu'r Brifysgol |

**Noder:**

- Mae’r Lefelau Perfformiad Dangosol wedi eu cyfrifo ar sail Cyfatebiaeth llawn amser (FTE). Er mwyn sicrhau tryloywder, cysondeb a chynhwysiant, rhaid i’r disgwyliadau fod yn realistig o safbwynt maint yr allbwn. Rhaid i’r lefelau yma gael eu cyfrif pro-rata ar gyfer y rhai sydd ar gytundeb rhan amser. Dylai staff sydd ag amgylchiadau personol gael y cyfle i rannu effaith yr amgylchiadau hyn ar eu gweithgaredd.
- Pan fydd mwy nag un Lefel Perfformiad Dangosol, dynodir blaenoriaeth strategol y Brifysgol mewn print bras.

# Llwybrau Gyrfa Academaidd Meini Prawf Uwch - Arloesedd ac Ymgysylltiad (A&Y)

Arloesi ac ymgysylltu mewn perthynas â gweithgareddau sy'n cael effaith gadarnhaol ar gyrff allanol a'r Brifysgol yn seiliedig ar ymdrechion academaidd. Gallai gweithgareddau o'r fath ddeillio o brosiectau sy'n seiliedig ar arloesi, gan greu cynhyrchion a phrosesau newydd, neu genhadaeth ac ymgysylltu dinesig, gan sbarduno ffyrdd newydd o weithio, cyfleoedd addysgol/ymchwil newydd, ymgysylltu â'r cyhoedd a newidiadau polisi/cyfreithiol. Mewn rhai achosion, bydd elfen arloesi ac ymgysylltu'n rhan o gorff o waith.

| | Maen Prawf | Lefel Perfformiad Dangosol | Enghreifftiau |
|---|---|---|---|
| **1.** | <u>Canlyniad ac Effaith</u><br>Gweithgareddau arloesedd ac ymgysylltiad sy'n arwain at ganlyniadau amlwg sy'n ychwanegu gwerth i fusnesau, llywodraeth, iechyd a lles, yr amgylchedd, cymdeithas, bywyd diwylliannol a sefydliadau allanol eraill ac iddynt ddylanwad rhyngwladol sylweddol.<br><br>*Sylwer: Gall hyn ddigwydd ar sail arloesedd neu ymgysylltiad.*<br><br>(Cydnabyddiaeth o ragoriaeth o safbwynt cyrhaeddiant, | • **Hanes cyson o gyhoeddi, y tu hwnt i'r llenyddiaeth academaidd, mewn cyfryngau blaenllaw rhyngwladol â dylanwad ac effaith yn y maes (o leiaf bedwar cyhoeddiad dros 5 mlynedd).**<br><br>**NEU**<br><br>• **Hanes cyson o arwain gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid/buddiolwyr ehangach neu mewn cyfryngau priodol i'r maes (dros 5 mlynedd) â dylanwad rhyngwladol.** | *Arddangoswch, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol, y raddfa ac effaith yr hyn rydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:*<br><br>• enw da'n rhyngwladol am gorff o waith sy'n cynnwys canlyniadau neu effaith rhagorol ar lefel ryngwladol<br>• hanes parhaus o ymchwil o safon uchel sy'n arwain at argymhellion i newid a/neu arloesedd o ran polisi ac arferion<br>• Arwain yr ymgysylltiad â pholisi neu gyrff proffesiynol i hyrwyddo ymchwil a chanfyddiadau ymchwil er mwyn dylanwadu ar argymhellion ar gyfer newid a/neu arloesi mewn polisi neu ymarfer<br>• hanes parhaus o gyhoeddi ar gyfryngau rhyngwladol cydnabyddedig o fewn y ddisgyblaeth/sector, e.e. adroddiadau wedi eu comisiynu, adolygiadau gweinidogol a dogfennau strategaeth rhyngwladol<br>• Arwain effaith sylweddol ac amlwg ar fusnes, llywodraeth, iechyd a lles, yr amgylchedd neu fywyd |

Swansea University Prifysgol Abertawe

| | | | |
|---|---|---|---|
| | arwyddocâd ac effaith o fewn y ddisgyblaeth/maes perthnasol fel y dangoswyd trwy gyfrwng hanes parhaus a nodedig o ganlyniadau llwyddiannus, gydag effaith amlwg neu werth ychwanegol i fusnes, llywodraeth, iechyd a lles, yr amgylchedd, y gymdeithas, bywyd diwylliannol neu sefydliadau allanol eraill, gyda chydnabyddiaeth ryngwladol). | **NEU**<br><br>• **Effaith barhaus amlwg ar sefydliad cenedlaethol neu ryngwladol o bwys, amgylchedd neu sefydliad mewn maes allweddol o ymarfer proffesiynol cenedlaethol neu ryngwladol (dros bum mlynedd).**<br><br>**NEU**<br><br>• **Dwy enghraifft o arwain effaith sylweddol ar gyrff priodol a/neu ar ymarfer proffesiynol** | diwylliannol neu newid mewn ymddygiad, ymarfer, polisi neu ddarpariaeth gwasanaethau. Dylanwadu ar gorff allanol ac ychwanegu ato yn uniongyrchol mewn modd y gellir ei fesur<br>• arwain sefydliad cwmnïau deillio<br>• arwain datblygiad technoleg newydd, elwa ar gynnyrch newydd o fewn diwydiant/busnes/arfer<br>• arwain gweithgaredd ymgysylltiad cyhoeddus sydd wedi arddangos cyrhaeddiant, ymgysylltiad neu newid sylweddol<br>• cymryd rhan fel tyst arbenigol mewn comisiynau, ar baneli polisi neu ymgynghoriadau a/neu gyrff perthnasol yn mabwysiadu argymhellion o waith ymchwil<br>• Hanes parhaus o arwain ar lefel gymunedol neu rwydweithiau neu raglenni<br>• hanes cyson o arwain effaith sylweddol<br>• hanes cyson o arwain gweithgarwch ymgysylltu sylweddol mewn addysg, megis cefnogi lleoliadau gwaith myfyrwyr ar raddfa<br>• hanes cyson o arwain wrth gyflawni ein cenhadaeth ddinesig i gefnogi heriau cenedlaethol, lleol a rhanbarthol i wella cysylltiadau rhwng y Brifysgol a'n cymunedau a chyda chanlyniadau amlwg (e.e. cynyddu ymgysylltu â'n cymunedau a chynyddu cyfranogiad cyhoeddus yn ein digwyddiadau, gwirfoddoli, sbarduno uchelgais yn ein cymunedau, cynyddu ymwybyddiaeth mewn ysgolion a datblygu perthnasoedd ag arweinwyr dinesig) |

<table>
<tr>
<td>2.</td>
<td><u>Prosiectau ac Incwm</u><br>Sicrhau adnoddau allanol priodol (nawdd neu adnoddau eraill).<br>Creu/cynllunio a rheoli prosiectau Arloesedd ac Ymgysylltiad<br>Hanes helaeth a pharhaus o ddatblygu ac arwain prosiectau a rhaglenni Arloesedd ac Ymgysylltiad sylweddol.</td>
<td><ul><li>Arwain a chwblhau’n llwyddiannus o leiaf <u>ddau</u> brosiect sylweddol neu ddatblygiad arloesol yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf drwy sicrhau nawdd sylweddol.</li></ul>NEU<ul><li>Arwain rhwydwaith o bartneriaid cenedlaethol neu ryngwladol i ddenu adnoddau er mwyn galluogi cyflawniad <u>dau</u> neu fwy o brosiectau sylweddol mewn 5 mlynedd.</li></ul>NEU<ul><li>Sicrhau grant aml-sefydliadol fel Arweinydd Prosiect, yn cynnwys sefydliadau heblaw am sefydliadau Addysg Uwch.</li></ul></td>
<td>Arddangoswch, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol, y raddfa ac effaith yr hyn rydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:<ul><li>hanes parhaus o arwain prosiectau sylweddol</li><li>llwyddiant parhaus wrth ddenu nawdd/incwm gan fusnesau, diwydiant, llywodraeth a sectorau eraill</li><li>creu incwm neu gynyddu adnoddau o Eiddo Deallusol (IP)</li><li>arwain grwpiau traws-sefydliadol a thraws-ddisgyblaethol</li><li>creu cynlluniau strategol ar gyfer rhaglenni Arloesedd ac Ymgysylltiad</li><li>hanes o arwain timau prosiect aml-sefydliadol</li><li>arwain prosiectau sefydliadol ymgysylltiad cyhoeddus mawr, gyda buddion amlwg i’r Brifysgol</li><li>cyd-gyfrannu neu arwain prosiectau Arloesedd ac Ymgysylltiad rhyngwladol</li><li>datblygu a pharatoi ceisiadau am gyllid gan gyrff ariannu PER neu fel rhan o gynllun ariannu ehangach</li><li>arwain wrth gyflawni incwm sylweddol i gyfoethogi gweithgareddau'r Gyfadran, e.e. canolfannau hyfforddiant doethurol, incwm o addysg drawswladol</li><li>arwain gweithgarwch ymgynghori Arloesi ac Ymgysylltu sy’n gysylltiedig ag incwm efo chyrhaeddiad ac effaith</li><li>Hanes cyson o arweinyddiaeth wrth ddenu incwm cydweithredol allanol, gan gynnwys cyllid dilynol yn sgil cyllid a ddyrannwyd yn fewnol megis RWIF fel llwyfan</li></ul></td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| **3.** | <u>Cydnabyddiaeth</u><br>Cydnabyddiaeth gan gymheiriaid fel arweinydd o fewn y ddisgyblaeth/sector berthnasol sy'n cael effaith amlwg ar gyfeiriad strategol prosiectau i'r dyfodol neu am gyfraniad i weithgareddau Ymgysylltiad.<br><br>Darparu lefel uchel o arbenigedd i gyrff allanol sy'n sicrhau effaith amlwg a phriodoladwy o ran buddion a chanlyniadau defnyddwyr. | • **leiaf 3 enghraifft o gydnabyddiaeth genedlaethol neu ryngwladol yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf.**<br><br>**A**<br><br>• **Gwahoddiadau rheolaidd i ddarparu neu rannu arbenigedd mewn fforymau rhanddeiliaid cenedlaethol a rhyngwladol, y tu hwnt i'r gymuned academaidd.**<br><br>**NEU**<br><br>• **Cyhoeddiadau wedi eu comisiynu yn y maes arbenigedd.**<br><br>**NEU**<br><br>• **Ymddangosiadau, erthyglau, cydnabyddiaeth yn y cyfyngau cenedlaethol/rhyngwladol.** | *Arddangoswch, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol, y raddfa ac effaith yr hyn rydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:*<br><br>• sefydlu, rheoli ac arwain rhwydweithiau, partneriaethau neu raglenni blaenllaw a sicrhau nawdd pan fo hynny'n briodol<br>• arwain a datblygu partneriaethau newydd sy'n ychwanegu gwerth sylweddol i'r Brifysgol, e.e. gyda grwpiau cymunedol<br>• darparu cyngor am ddatblygiadau i'r dyfodol i fyrddau sefydliadau blaenllaw<br>• darparu cyngor i fyrddau cyrff cyhoeddus/llywodraeth/rhyngwladol arwyddocaol ar strategaeth tymor hir mater cenedlaethol penodol<br>• arwain sefydlu partneriaethau gyda grwpiau allanol a mewnol<br>• gwahoddiadau i gynadleddau, gweithdai a fforymau rhyngwladol fel siaradwr cyweirnod (cysylltiedig ag Arloesedd ac Ymgysylltiad)<br>• cydnabyddiaeth ryngwladol/fyd-eang gan gyrff perthnasol a blaengar, er enghraifft, trwy gyfrwng gwobrau neu enwebiadau ayb<br>• comisiynau cyhoeddi<br>• arwain trefnu cynhadledd ryngwladol a golygu'r gweithrediadau yn llwyddiannus. (cysylltiedig ag Arloesedd ac Ymgysylltiad)<br>• gwahoddiadau i ddatblygu cynnwys ymgysylltiad sylweddol gyda chyrff cyhoeddus, e.e. rhaglenni dogfen y BBC, amgueddfeydd, gwyliau |

Swansea University
Prifysgol Abertawe

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **NEU**<br><br>• **Cydnabyddiaeth gan sefydliadau hynod dylanwadol a blaenllaw.** | gwyddonol/celfyddydol<br>• ymddangosiadau arwyddocaol ar y cyfryngau<br>• dylanwadu ar ymgysylltiad cyhoeddus yn genedlaethol neu'n rhyngwladol gyda chyrff PER.<br>• Penodiad fel Llywydd Bwrdd sefydliad elusennol o bwys sy'n berthnasol i arloesi ac ymgysylltu |
| **4.** | <u>Dylanwadu ar amgylchedd Arloesedd ac Ymgysylltiad y Brifysgol a'i hyrwyddo</u><br><br>Arwain newid strategol ac arwyddocaol ar draws y Brifysgol ac yn allanol o ganlyniad i weithgareddau arloesedd ac ymgysylltiad. | O leiaf bedwar enghraifft o effaith ar strategaeth neu arfer polisi'r Brifysgol mewn 5 mlynedd. | *Arddangoswch, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol, y raddfa ac effaith yr hyn rydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:*<br><br>• dylanwadu ar y modd y mae rhaglenni addysgu ac ymchwil yn cael eu cyflwyno (gan ymgorffori elfennau o Arloesedd ac Ymgysylltiad) neu newidiadau eraill i'r ddisgyblaeth ar lefel genedlaethol neu ryngwladol<br>• datblygu polisi ac arwain strategaeth Arloesedd ac Ymgysylltiad ar draws y Brifysgol<br>• datblygu eraill fel awdurdod cydnabyddedig ar Arloesedd ac Ymgysylltiad o fewn y Brifysgol<br>• arwain gweithgareddau ar lefel y Brifysgol sy'n newid ac yn ymgorffori diwylliant o ymgysylltiad cyhoeddus drwy'r Brifysgol<br>• prosiectau mawr ar draws y Brifysgol sy'n arwain at newidiadau sylweddol yn y Brifysgol<br>• rôl arwain wrth sicrhau bod gweithgareddau'n cydweddu â strategaeth Arloesi ac Ymgysylltu'r Gyfadran/y Brifysgol<br>• datblygu gweithgareddau sy'n ymgorffori ac yn galluogi PER gydag effaith ar lefel Prifysgol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • arwain ar ymgysylltiad gyda nifer fawr o gyflogwyr sy’n berthnasol i’r ddisgyblaeth ar gyfer blwyddyn mewn diwydiant, lleoliad dros yr haf, ayb.<br>• arwain datblygiadau sy'n darparu budd sylweddol ar fuddsoddiad ar gyfer gweithgareddau'r Gyfadran, e.e. offer meddalwedd, canolfannau hyfforddiant doethurol, gweithgareddau addysg drawswladol |

**Noder:**

- Mae’r Lefelau Perfformiad Dangosol wedi eu cyfrifo ar sail Cyfatebiaeth llawn amser (FTE). Er mwyn sicrhau tryloywder, cysondeb a chynhwysiant, rhaid i’r disgwyliadau fod yn realistig o safbwynt maint yr allbwn. Rhaid i’r lefelau yma gael eu cyfrif pro-rata ar gyfer y rhai sydd ar gytundeb rhan amser. Dylai staff sydd ag amgylchiadau personol gael y cyfle i rannu effaith yr amgylchiadau hyn ar eu gweithgaredd.
- Pan fydd mwy nag un Lefel Perfformiad Dangosol, dynodir blaenoriaeth strategol y Brifysgol mewn print bras.

# Lefelau Perfformiad Dangosol Llwybr Gyrfa Academaidd

Cafodd y Lefelau Perfformiad Mynegol eu cyfrifo ar sail cyfwerth amser llawn.

I sicrhau tryloywder, cysondeb a chynwysoldeb, rhaid i ddisgwyliadau fod yn realistig o ran swm yr allbwn.

Ar gyfer y rhai sy’n gweithio ar gontract rhan-amser, rhaid i’r lefelau hyn gael eu cyfrifo ar sail pro-rata. Dylai staff ag amgylchiadau unigol hefyd gael y cyfle i rannu effaith y rhain ar eu gweithgarwch.

# ATODIAD A – YMCHWIL

**Allbynnau Ymchwil**
Cyfanswm treigl 5 mlynedd  y cyhoeddiadau gyda gradd seren. Diffinnir y flwyddyn fel blwyddyn galendr, h.y. 1 Ionawr tan 31 Rhagfyr.

Nodwch os gwelwch yn dda mai'r unig gyhoeddiadau a ddangosir yn yr Adolygiad Datblygiad Proffesiynol (ADP) ar hyn o bryd yn rhai sydd ond:

i. Wedi'u cofnodi ar System Wybodaeth Ymchwil y Brifysgol (RIS) ac
ii. Wedi cael eu hasesu drwy Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF 2014) ac ymarferion REF llai wedi hynny

**Mae lefelau dangosol fel a ganlyn:**

**Ymchwil Craidd**

| Nifer o gyhoeddiadau |
|---|
| 2 x gyhoeddiad o safon |

**Ymchwil Uwch**

| Rôl | Nifer y cyhoeddiadau |
|---|---|
| Darlithydd | 4 x 3* |
| Uwch Ddarlithydd | 4 x 3* |
| Athro Cyswllt | 3 x 3*<br>1 x 4* |
| Athro | 2 x 3*<br>2 x 4* |

*Noder os gwelwch yn dda fod papur y cadarnhawyd ei fod yn cael ei gyflwyno i'r REF fel cyhoeddiad â phwysau dwbl yn cael ei ystyried fel dau.*

## 1. Incwm Grant

Cyfartaledd treigl 5 mlynedd o werth yr incwm grant a ddyfarnwyd. Diffinnir y flwyddyn fel blwyddyn academaidd h.y. 1 Awst hyd at 31 Gorffennaf.

**Sut y cyfrifir hyn?**

Fe gyfrifir y lefelau perfformiad dangosol drwy adnabod yr ystod rhwng y chwarteli perthnasol yn y setiau data canlynol ar gyfer pob adran:

i. Incwm Ymchwil 2014/15 a gofnodwyd yng Nghofnod Cyllid yr Awdurdod Safonau Addysg Uwch (HESA) ar gyfer y sefydliadau hynny sydd yn y Grŵp Meincnodi Prifysgolion (UBG) ar gyfer pob pwnc.

ii. Cyfartaledd tair blynedd Incwm Ymchwil Prifysgol Abertawe, ar lefel adrannol.

**Mae'r lefelau dangosol fel a ganlyn:**

**Ymchwil Craidd**

| |
|---|
| Dim lefel ddangosol ar gyfer incwm grant wedi'i chofnodi<br>Tystiolaeth o sicrhau adnoddau allanol sy'n berthnasol i'r maes dros gyfnod o bum mlynedd, megis y rhai a nodir yn y blwch enghraifft. |

**Ymchwil uwch**

| Rôl | Incwm Grant |
|---|---|
| Darlithydd | Dim lefel ddangosol ar gyfer incwm grant wedi'i chofnodi.<br>Ceisiadau am grantiau ymchwil fel Cyd-ymchwilydd. O leiaf un dyfarniad o fewn 3 blynedd. |
| Uwch Ddarlithydd | Dylai'r dyfarniad fod rhwng Chwartel Isaf Prifysgol Abertawe a Chwartel Isaf UBG ar gyfer gweithgaredd ymchwil personol (PI) a / neu Golegol (fel y dangosir yn y metrigau isod). |
| Athro Cyswllt | Dylai'r dyfarniad fod rhwng Canolrif Prifysgol Abertawe a Chanolrif UBG ar gyfer gweithgaredd PI yn unig (fel y dangosir yn y metrigau isod). |
| Athro | Dylai'r dyfarniad fod rhwng Chwartel Uchaf Prifysgol Abertawe a Chwartel Uchaf UBG ar gyfer gweithgaredd PI yn unig (fel y dangosir yn y metrigau isod). |

Swansea University
Prifysgol Abertawe

| Incwm Grant ACP 2016 | Athro | | Athro Cyswllt | | Uwch-ddarlithydd | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Chwartel Uchaf | | Chwartel Canolig | | Chwartel Iasf | |
| | Abertawe | UBG | Abertawe | UBG | Abertawe | UBG |
| Peirianneg | 141 | 124 | 57 | 107 | 22 | 81 |
| Gwyddor Chwaraeon | 64 | 37 | 23 | 16 | 18 | 15 |
| Mathemateg | 5 | 39 | 2 | 30 | 1 | 22 |
| Cyfrifiadureg | 166 | 86 | 37 | 73 | 3 | 46 |
| Ffiseg | 156 | 177 | 18 | 129 | 4 | 95 |
| Daearyddiaeth | 82 | 51 | 32 | 35 | 9 | 24 |
| Biowyddorau | 46 | 121 | 15 | 80 | 9 | 69 |
| Meddygaeth | 231 | 169 | 78 | 143 | 7 | 83 |
| Gwyddor Iechyd | 87 | 37 | 13 | 29 | 2 | 27 |
| Seicoleg | 29 | 74 | 18 | 51 | 8 | 30 |
| Gwaith Cymdeithasol a Gofal | 180 | 46 | 41 | 38 | 16 | 15 |
| Hanes | 31 | 22 | 7 | 13 | 1 | 7 |
| Clasuron | 49 | 30 | 26 | 8 | 3 | 4 |
| Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu | 4 | 12 | 0.4 | 7 | 0.2 | 3 |
| Iaith Saesneg | 4 | 12 | 0.4 | 7 | 0.2 | 3 |
| Ieithoedd Modern | 7 | 21 | 2 | 6 | 1 | 4 |
| Adran Astudiaethau'r Cyfryngau | 7 | 13 | 4 | 4 | 0.3 | 1 |
| Astudiaethau Gwleidyddol a Diwylliannol | 72 | 23 | 17 | 16 | 2 | 6 |
| Addysg | 72 | 23 | 17 | 16 | 2 | 6 |
| Adran y Gymraeg | 29 | 21 | 15 | 6 | 0 | 4 |
| Y Gyfraith | 6 | 10 | 2 | 7 | 0.9 | 2 |
| Troseddeg | 40 | 46 | 37 | 38 | 33 | 15 |
| Cyfrifeg a Chyllid | 48 | 12 | 26 | 8 | 3 | 5 |
| Busnes | 5 | 12 | 4 | 8 | 3 | 5 |
| Economeg | 57 | 15 | 50 | 8 | 39 | 3 |

***Prifysgol Grŵp Meincnod***

***Abertawe Data Prifysgol***

***Nodyn:*** *Yr incwm grant dangosol yw cyfanswm y grant dros y 5 mlynedd ddiwethaf, wedi'i rannu â 5 i roi swm cyfartalog blynyddol fel y'i dangosir yn y tabl isod*

*Defnyddir data HESA 2014-15 a data mewnol 2012-13 hyd 2014-15 (yn cynnwys ariannu gan ERDF ac ESF)*

**Goruchwylio Myfyrwyr Ymchwil Ôl-radd**
Dyma'r nifer o fyfyrwyr Ymchwil Ôl-radd a oruchwyliwyd yn ystod y flwyddyn academaidd yn ôl statws goruchwyliwr cyntaf ac ail oruchwyliwr.

**Mae'r lefelau dangosol fel a ganlyn:**

**Ymchwil Craidd**

| |
|---|
| Dim lefel ddangosol ar gyfer goruchwylio Ymchwil Ôl-radd fel goruchwyliwr cyntaf neu ail oruchwyliwr (wedi'i gynnwys fel rhan o faen prawf Craidd, Prosiectau a Grantiau Ymchwil) |

**Ymchwil uwch**

| Rôl | Goruchwylio Ymchwil Ôl-radd |
|---|---|
| Darlithydd | Dim lefel ddangosol ar gyfer goruchwylio Ymchwil Ôl-radd fel goruchwyliwr cyntaf neu ail oruchwyliwr. Ar dîm goruchwylio myfyriwr Ymchwil Ôl-radd cyfredol. |
| Uwch Ddarlithydd | Goruchwyliwr cyntaf neu ail oruchwyliwr i o leiaf 1 myfyriwr, fel rhan o hanes o oruchwylio myfyrwyr ôl-radd sy'n cwblhau'n llwyddiannus, gan gynnwys PhD. |
| Athro Cyswllt | Goruchwylio o leiaf un myfyriwr PhD neu ddoethuriaeth broffesiynol (fel y bo'n briodol i'r ddisgyblaeth) i gwblhau'n llwyddiannus fel goruchwyliwr cyntaf mewn cyfnod o 5 mlynedd ac, yn nodweddiadol, weithredu fel goruchwyliwr cyntaf ar gyfer o leiaf un myfyriwr ymchwil ôl-raddedig y flwyddyn, fel rhan o hanes cyson o oruchwylio myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n cwblhau eu graddau (gan gynnwys PhD). |
| Athro | Goruchwylio o leiaf 2 fyfyriwr PhD neu Ddoethuriaeth Broffesiynol (fel y bo'n briodol i'r ddisgyblaeth) i gwblhau'n llwyddiannus, fel goruchwyliwr cyntaf, mewn cyfnod o 5 mlynedd ac, yn nodweddiadol, weithredu fel goruchwyliwr cyntaf ar gyfer o leiaf 2 fyfyriwr ymchwil ôl-raddedig y flwyddyn, fel rhan o hanes helaeth a chyson o oruchwylio myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig i gwblhau'n llwyddiannus (gan gynnwys PhD). |

# ATODIAD B - ADDYSGU AC YSGOLHEICTOD

## Gwerthusiad Modiwlau

Sgôr cyfartalog yr ymatebion ar draws pob modiwl a gydlynwyd neu a addysgwyd ar gyfer y cwestiynau adborth ar fodiwlau:

1. Mae'r adborth ar fy ngwaith hyd yn hyn wedi helpu i wella fy nysgu
2. Rwy'n fodlon, ar y cyfan, gydag ansawdd y modiwl
3. Rwy'n fodlon, ar y cyfan, gyda'm profiad o'r darlithwyr sy'n addysgu ar y modiwl hwn

**Sut y cyfrifir hyn?**

Caiff y lefelau perfformiad mynegol eu cyfrifo drwy ddadansoddi dosbarthiad y sgôr ar gyfer y cwestiynau ar gyfer rôl pob gweithiwr. Dewisiwyd data chwartel i hysbysu'r lefelau isaf.

**Mae'r lefelau dangosol fel a ganlyn:**

**Ymchwil Craidd**

| ACP 2016 | |
|---|---|
| Cwestiynau Gwerthusiad Modiwlau | Chwartel Is (25%) |
| 1. Mae'r adborth ar fy ngwaith hyd yn hyn wedi helpu i wella fy nysgu | 3.8 |
| 2. Rwy'n fodlon, ar y cyfan gydag ansawdd y modiwl | 3.9 |
| 3. Rwy'n fodlon, ar y cyfan gyda'm profiad o'r darlithwyr sy'n addysgu ar y modiwl hwn | 4.0 |

*Defnyddir data mewnol 2015-16*

## Addysgu ac Ysgolheictod Uwch

| ACP 2016 | Athro | Athro Cyswllt | Uwch-ddarlithydd | Darlithydd |
|---|---|---|---|---|
| **Cwestiynau Gwerthusiad Modiwlau** | **Chwartel Uwch (75%)** | **Chwartel Canolig (50%)** | **Canradd 35 (35%)** | **Chwartel Is (25%)** |
| **1. Mae derbyn adborth ar fy ngwaith hyd yn hyn wedi helpu i wella fy addysg** | 4.5 | 4.1 | 4.0 | 3.8 |
| **2. Ar y cyfan, rwy'n fodlon gydag ansawdd y modiwl** | 4.7 | 4.3 | 4.0 | 3.9 |
| **3. Ar y cyfan, rwy'n fodlon â'm profiad o'r darlithwyr sy'n addysgu ar y modiwl hwn** | 4.8 | 4.5 | 4.2 | 4.0 |

*Defnyddir data mewnol 2015-16*

***Noder:*** *mae'r 35ain canradd rhwng y chwartel is (25%) a'r chwartel canol (50%).*

# ATODIAD C – Yr Academi Addysg Uwch (AAU)

**Mae'r lefelau dangosol fel a ganlyn:**
**Addysgu Craidd**
**Yn dal neu'n gweithio tuag at ennill Cymrodoriaeth AAU. Mae dau lwybr ar gyfer cael Cymrodoriaeth AAU.**
**Cofnodir "Gweithio'n weitheredol tuag at dderbyn Cymrodoriaeth AAU" fel un o'r canlynol:**

| Llwybr | Gweithio'n weithredol tuag at Gymrodoriaeth yr AAU |
|---|---|
| **i. Ar gyfer y llwybr Tystysgrif Ôl-radd mewn Addysg Uwch:** | Ystyrir fod person yn gweithio tuag at y Gymrodoriaeth os yw ef / hi:<br>• Wedi llwyddo yn y modiwl SL-M01<br>• Wedi sicrhau marc uwch na'r marc llwyddo yn o leiaf 2 o Elfennau modiwl SL-M02 |
| **ii. Ar gyfer y llwybr Achrediad:** | Ystyrir fod person yn gweithio tuag at Gymrodoriaeth[1] os yw ef / hi wedi cwblhau gweithgareddau Amcan Dysgu Ar-lein ADAA ynghylch Cymrodoriaeth yr AAU a Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU ac wedi cyflwyno cais drafft am Gymrodoriaeth i ADAA. |

**Addysgu Uwch**

| Rôl | HEA |
|---|---|
| Darlithydd | **Cymrawd AAU neu gyfatebol.** |
| Uwch Ddarlithydd | **Cymrawd AAU neu gyfatebol.** |
| Athro Cyswllt | **Uwch Gymrawd yr AAU neu gyfatebol neu wedi derbyn enwebiad ar gyfer Cymrodoriaeth Addysgu** |
| Athro | **Cydnabyddiaeth genedlaethol am addysgu rhagorol / effaith strategol er enghraifft fel Prif Gymrawd yr AAU neu Gymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol neu ar restr fer ar gyfer Cymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol** |

Gellir cyflwyno ymholiadau am yr hyn sy'n berthnasol i SALT yn y lle cyntaf. Gellir cynnwys cadarnhad ysgrifenedig gan SALT fel tystiolaeth os bernir ei fod yn gyfwerth.

[1] Mae'r Term 'Cymrodoriaeth' yn golygu pob categori o Gymrodoriaeth a gefnogir gan y llwybr SAR – Cyswllt, Cymrawd neu Uwch Gymrawd